**Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Ebbw Vale, 25 Tachwedd 2015 (10.30am – 3pm)**

***Wales Association of SACREs meeting, Ebbw Vale, 25 November 2015 (10.30am – 3pm)***

**Ynys Môn / *Anglesey***
Bethan James
Rheinallt Thomas

**Blaenau Gwent**
Gill Vaisey
Bev Womersley
Chris Abbas
R Wayne Evans
Soam Sharma
Denise O'Donnell
Diane Rowberry
John Morgan
Diana Wrobel
Ilona Dziedzic
Angela Lloyd
Fran Bellinghan
Karen Fairburn
Liz Arthur
Roy Watson

**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***
Vicky Thomas
Edward Evans

**Caerffili/ *Caerphilly***
Vicky Thomas
Janet Jones

**Caerdydd / *Cardiff***
Gill Vaisey

**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***
Mary Parry
Meinir Wynne Loader
Aled D. Jones

**Ceredigion**
Alwen Roberts

**Conwy**
Phil Lord

**Sir Ddinbych / *Denbighshire***
Phil Lord

**Sir y Fflint / *Flintshire***
Phil Lord

**Gwynedd**
Bethan James

**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***
Vicky Thomas
Mark Prevett
Ernie Galsworthy
Kate Moran

**Sir Fynwy / *Monmouthshire***
Gill Vaisey
Sharon Perry-Phillips
Neeta Singh Baicher
Sue Cave

**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***
Jen Malcolm

**Casnewydd / *Newport***
Huw Stephens
Vicky Thomas
Sally Northcott
Joanne Crawley

**Sir Benfro / *Pembrokeshire***
Huw George

**Powys**
John Mitson

**Rhondda Cynon Taf**
Gill Vaisey
Mathew Maidment

**Abertawe / *Swansea***
Vicky Thomas
Rev'd Nick Perry
Rachel Bendall

**Torfaen /Torfaen**
Vicky Thomas
Ian Thomas
Kenneth Jacob

**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***
Gill Vaisey
Dafydd Treharne

**Wrecsam / *Wrexham***
Libby Jones

**Sylwedyddion / *Observers***
Tudor Thomas (REMW)
David Sargent (Welsh Government)

**Cofnodion/*Minutes***

| | |
|---|---|
| *Ensemble* Cerddorol a chôr plant o ysgolion Blaenau Gwent:<br><br>- Grŵp Gitâr Canolfan Gerdd Blaenau Gwent<br>- Côr ysgol gynradd St Illtyd | Musical ensemble and children's choir from Blaenau Gwent schools:<br><br>- Blaenau Gwent Music Centre Guitar Ensemble<br>- St Iltydd's primary school choir |
| 1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome*<br><br>Dechreuodd y Cadeirydd newydd, Phil Lord, y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau i'r Swyddfeydd Cyffredinol ym Mlaenau Gwent a diolchodd i'r plant am eu croeso cerddorol. Diolchodd Phil hefyd i Gavin Craigen am y gwaith aruthrol a wnaeth i Gymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod ei flynyddoedd hir o wasanaeth i'r Gymdeithas. Eglurodd wrth yr aelodau fod Gavin wedi ymddiswyddo fel Cadeirydd CYSAGauC yn yr haf.<br><br>Croesawyd yr aelodau yn swyddogol gan Lynnette Jones, Cyfarwyddwr Addysg Blaenau Gwent a Keren Bender, Cadeirydd CYSAG Blaenau Gwent gyda dymuniadau gorau am gyfarfod diddorol a chynhyrchiol.<br><br>Rhoddodd disgyblion Blwyddyn 9 *Cyfnod Uwchradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr* gyflwyniad ar pam fod gwersi addysg grefyddol yn bwysig iddyn nhw, a chafwyd cân a oedd yn procio'r meddwl gan gôr Ysgol Gynradd St Iltyd "Think before we speak".<br><br>Yn dilyn y cyflwyniadau hyn cafwyd dwy deyrnged deimladwy i gydweithwyr a chyfeillion a fu farw eleni. Roedd y naill i Ben Wigley, gan Rheinallt Thomas, a'r llall i Denize Morris, gan Gill Vaisey. Yn dilyn y teyrngedau safodd yr aelodau am funud o dawelwch.<br><br>2. Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection*<br><br>Gofynnodd Phil i'r aelodau feddwl am gyfraniadau Ben a Denize i CCYSAGauC, byd AG yng Nghymru, a thu hwnt. Gofynnodd i'r aelodau ystyried hefyd eu cyfraniadau eu hunain. | 1. Cyflwyniad a chroeso / *Introduction and welcome*<br><br>New Chair, Phil Lord began the meeting by welcoming members to the General Offices in Blaenau Gwent and thanking the children for their musical welcome. Phil also thanked Gavin Craigen for the extensive work he had done for WASACRE during his many years' service to the Association and explained to members that Gavin resigned as Chair of WASACRE this summer.<br><br>Lynnette Jones, Director of Education for Blaenau Gwent and Keren Bender, Chair of Blaenau Gwent SACRE made the official welcome to members and wished them well for an engaging and productive meeting.<br><br>Year 9 Pupils from *Ebbw Fawr Learning Community Secondary Phase* gave a presentation on why religious education lessons are important to them, and children from St Iltydd's Primary School choir sang a thought provoking song called "Think before we speak".<br><br>Following these introductions two moving tributes were paid to our colleagues and friends who had very sadly passed away this year. The first was to Ben Wigley, by Rheinallt Thomas and the second to Denize Morris, by Gill Vaisey. Following the two tributes members joined together in a minute silence.<br><br>2. Adfyfyrio tawel / *Quiet reflection*<br><br>Phil asked members to think of Ben and Denize's contributions to WASACRE, the RE world in Wales, and beyond. He also asked members to consider their own contribution. |

| | |
|---|---|
| 3. Ymddiheuriadau / *Apologies*<br><br>Tania ap Sion, Yr Athro Leslie Francis, Helen Gibbon, David Kitchen, Lyndon Lloyd, Margaret Evitts, Stuart Wheatman. | 3. Ymddiheuriadau / *Apologies*<br><br>Tania ap Sion, Professor Leslie Francis, Helen Gibbon, David Kitchen, Lyndon Lloyd, Margaret Evitts, Stuart Wheatman. |
| 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug, 25 Mehefin 2015 / *Minutes of meeting held in Mold, 25 June 2015*<br><br>Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod. | 4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug, 25 Mehefin 2015 / *Minutes of meeting held in Mold, 25 June 2015*<br><br>Minutes were accepted as a true record of the meeting. |
| 5. Materion yn codi / *Matters arising*<br><br>Eitem 3. Cadarnhaodd LJ fod llythyr o ddiolch wedi'i anfon at Tudor Thomas ar ei ymddeoliad o CBAC a bod CCYSAGauC wedi cael ateb gan Tudor.<br><br>Eitem 5. Y Fagloriaeth Gymreig. Codwyd pryderon unwaith eto am ddiogelu addysg grefyddol yn CA4 gyda chymhwyster statudol y Fagloriaeth Gymreig yn cael ei ddysgu fel pwnc ar yr amserlen. Roedd yr aelodau'n pryderu fod rhai ysgolion yn defnyddio amser AG ar yr amserlen i ddysgu'r Fagloriaeth. Dywedodd cynrychiolydd athrawon yn y cyfarfod ei bod yn anodd darparu ar gyfer yr AG craidd o fewn y Fagloriaeth a bodloni'r gofyniad statudol ac y bydd yn her i unrhyw ysgol neu adran AG sy'n gorfod gwneud hyn. Cytunodd yr aelodau fod angen monitro'r sefyllfa'n ofalus.<br><br>Gweithredu: LJ i ddrafftio llythyr cyn Nadolig i Glercod CYSAG i ofyn am wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn eu hysgolion lleol. Anfonir holiadur syml y gellir ei anfon i bobl ysgol i'w lenwi a'i ddychwelyd, yn cyfeirio at y ffaith fod CYSAGau'n pryderu am yr amserlennu ac yn dymuno cefnogi'r ysgolion.<br><br>Eitem 6. Cyflwyniad PYCAG (NAPfRE) gan Mary Parry yng nghyfarfod mis Mawrth. Diolchodd Gil Vaisey i Mary am rannu'i gwaith ac am gynhyrchu'r adnodd defnyddiol hwn ac | 5. Materion yn codi / *Matters arising*<br><br>Item 3. LJ confirmed that the thank you letter was sent to Tudor Thomas on his retirement from WJEC and that WASACRE has received a reply from Tudor.<br><br>Item 5. Welsh Baccalaureate. Concerns were raised again over the security of religious education in KS4 with the implementation of the statutory Welsh Baccalaureate qualification as a timetabled subject. Members were concerned that some schools are using RE time on the timetable to teach Welsh Bacc. A teacher representative at the meeting said that it is hard to make provision for core RE within the Welsh Bacc that meets statutory requirement and that it will be a challenge for any school or RE department who has to do this. Members at the meeting agreed that the situation needs to be carefully monitored.<br><br>Action: LJ will draft a letter before Christmas to SACRE Clerks to request information regarding what is happening in their local schools. A simple open ended survey will be attached which can be sent to each school to complete and return, making reference that SACRE's were concerned about the timetabling issue and want to support schools.<br><br>Item 6. NAPfRE presentation by Mary Parry in March meeting. Gill Vaisey thanked Mary for sharing her work and for producing this useful resource and so generously making the CD Rom |

yn garedig iawn yn sicrhau fod y CD Rom ar gael i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae athrawon yn ei ddefnyddio ac mae'n gweithio'n dda iawn mewn cynlluniau gwaith AG.

Eitem 9. Cynhadledd EFTRE. Gofynnodd Phil Lord i'r aelodau oedd yn bresennol fwydo gwybodaeth yn ôl i'w CYSAGau eu hunain am gynhadledd EFTRE a gynhelir rhwng 31 Awst a 3 Medi 2016. Am ragor o wybodaeth am y gynhadledd, cyfeiriwyd yr aelodau at wefan EFTRE.

Eitem 10. Dogfen ganllaw Addysg Grefyddol. Mae Gill yn dod ymlaen yn dda ar y canllawiau hyn ac atgoffodd yr aelodau mai'r prif bwrpas yw rheoli'r hawl i esgusodi disgyblion o addysg grefyddol. Gofynnodd Gil am astudiaethau achos gan ysgolion/CYSAGau.

Eitem 10. UFA. Cadarnhaodd Rheinallt Thomas fod *RE ideas* mewn lliw erbyn hyn ac mae'n cael ei anfon i bob Clerc CYSAG. Rhoddwyd gwahoddiad agored i athrawon i helpu gyda *RE ideas*. Mae athro o Wrecsam wedi bod yn helpu eleni. Cadarnhaodd Rheinallt hefyd fod yr athrawon yn cael eu talu am eu hamser a'u gwaith.

6. Cyflwyniad PYCAG/ *NAPfRE presentation*:

Archwilio Ffydd yn yr Ysgol Gynradd gan Liz Arthur gydag athrawes Ysgol gynradd o Flaenau Gwent/ *Exploring Faith in the Primary School by Liz Arthur and Karen Fairburn from Ebbw Fawr Learning Community Primary Phase, in Blaenau Gwent*

Cynhaliodd Cyfnod Cynradd, Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr, wythnos AG a Chelf lwyddiannus fel rhan o'r rhaglen flynyddol o 'wythnosau pwnc'. Drwy gydol yr wythnos gwahoddwyd nifer o westeion o amryw o gymunedau ffydd i'r ysgol i gwrdd â'r plant a gweithio gyda nhw. Prif amcan yr wythnos oedd i'r disgyblion gyfarfod a rhyngweithio â phobl o wahanol ffydd. Cafodd amrywiaeth o gynrychiolwyr

available to all secondary schools in Wales. Teachers are using it and it is working very well within RE schemes of work.

Item 9. EFTRE Conference. Phil Lord asked members present to feed information back to their own SACREs about the EFTRE conference which will take place on 31st Aug to 3rd September 2016. For more information regarding the conference, members were directed to the EFTRE Website.

Item 10. Religious Education guidance document. Gill is making good progress on this guidance and reminded members that the focus for it is on managing the right of withdrawal from religious education. Gill requests case studies from school/SACREs

Item 10. AOB. Rheinallt Thomas confirmed that *RE ideas* is now in colour and is being sent to all SACRE Clerks. An open invitation was given to teachers for them to help with RE *ideas*. A teacher from Wrexham has helped this year. Rheinallt was able to confirm also that teachers are paid for their time and work.

6. Cyflwyniad NAPfRE/ *NAPfRE presentation*:

Archwilio Ffydd yn yr Ysgol Gynradd gan Liz Arthur gydag athrawes Ysgol gynradd o Flaenau Gwent/ *Exploring Faith in the Primary School by Liz Arthur and Karen Fairburn from Ebbw Fawr Learning Community Primary Phase, in Blaenau Gwent*

Ebbw Fawr Learning Community, Primary Phase, held a very successful RE and Art Week as part of the yearly programme of 'subject weeks'. Throughout the week a number of guests from a range of faiths were invited in to school to meet and work with the children. The main objective of the week was for pupils to meet and interact with people of different faiths. A range of faith representatives and Christian

| | |
|---|---|
| ffydd ac enwadau Cristnogol eu cynrychioli. Cymerodd y plant ran mewn pob math o weithgareddau yn ystod yr wythnos a gafodd eu cynllunio a'u cyflwyno gan y cynrychiolwyr ffydd gyda chymorth yr athro oedd yn arwain yr wythnos a hefyd gan Gill Vaisey, a ddarparodd rai o'r adnoddau. | denominations were represented. The children participated in a variety of activities throughout the week which were planned and delivered by the faith representatives with help from the teacher leading the week and also from Gill Vaisey, who provided some of the resources. |
| Roedd yr ymateb gan y disgyblion ar ddiwedd yr wythnos yn cynnwys sylwadau fel, "Roedd hynna'n wirioneddol ddiddorol, Miss, mae'n llawer mwy cyffrous dysgu gan berson go iawn", a, "Nes i fwynhau cwrdd â Mr Sharma, fe oedd y darn gorau. Roedd e'n gwybod lot am yr arteffactau a sut maen nhw'n cael eu defnyddio". Ymhlith ymatebion y staff ar ddiwedd yr wythnos roedd sylwadau fel, "Roedd y plant wrth eu bodd ac yn gofyn cwestiynau call achos roedden nhw wir eisiau gwybod mwy am y grefydd yna" a, "Roedd y rhyngweithio â'r plant yn eithriadol ac fe ddysgais i lwytho bethau newydd am grefyddau". | The responses from pupils at the end of the week included comments like, "That was really interesting Miss, it's more exciting learning from a real person" and, "I really enjoyed meeting Mr Sharma, he was the best bit. He knew lots about the artefacts and how they are used". The responses from staff at the end of the week included comments like, "Children loved it and asked sensible questions because they really did want to know more about the religion" and, "Interaction with the children was outstanding and I learnt an amazing amount about religions I didn't know". |
| Diolchodd Phil Lord i Liz Arthur a Karen Fairburn am rannu'r cyflwyniad, a gafodd nifer o sylwadau cadarnhaol o'r llawr. Cafwyd awgrymiadau gan yr aelodau ar ddatblygu'r wythnos, sef: cynnwys cynrychiolwyr o enwadau gwahanol o'r crefyddau heb fod yn Gristnogol hefyd; gofyn i rieni anfon arteffact crefyddol i mewn gyda'u plentyn i wneud arddangosfa yn ystod yr wythnos a'r plant i egluro i'w gilydd beth mae'r arteffact yn ei olygu iddyn nhw a sut mae'n cael ei ddefnyddio yn eu teulu, fel rhan o weithgaredd sgwrs rhyng-ffydd; cynnwys cyfeiriadau at y Fframwaith AG presennol a lefelau cyrhaeddiad i AG wrth gynllunio'r digwyddiad. | Phil Lord thanked Liz Arthur and Karen Fairburn for sharing the presentation, which received lots of positive comments from the floor. Suggestions from members about how the week could be developed were: to include representatives from different denominations from the non-Christian faiths also; to ask parents to send their child in with a religious artefact for a display during the week and for the children to explain to each other what the artefact means to them and how it is used in their family, as part of an interfaith dialogue activity; to include references to the current RE Framework and levels of attainment for RE in the planning of the event. |
| 7. Diweddariadau/*Up-dates:* | 7. Diweddariadau/*Up-dates:* |
| **Cysylltiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru/ *Welsh Government contacts and meetings* – Libby Jones** | **Cysylltiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru/ *Welsh Government contacts and meetings* – Libby Jones** |
| Cyflwynodd Libby David Sargent, y cyswllt newydd yn Llywodraeth Cymru a oedd yn | Libby introduced David Sargent, the new Welsh Government contact who was present at the |

| | |
|---|---|
| bresennol yn y cyfarfod. Diweddarwyd yr aelodau ar y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod ar 20 Medi gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru, Steve Price, John Pugsley (Is-adran Cwricwlwm) a Karen Cornish (Pennaeth tîm gweithredu'r adolygiad). Prif bynciau'r cyfarfod oedd Yr Adolygiad o'r Cwricwlwm, Dyfodol Llwyddiannus a CYSAGau, roedd yr eitemau eraill a drafodwyd yn cynnwys yr Adolygiad o Adroddiadau Blynyddol CYSAG a chadarnhawyd y byddai hyn yn dal yn gylch 3 blynedd, a cheisiadau Llywodraeth Cymru am wybodaeth ganllaw ar addoli ar y cyd ac am wybodaeth ynghylch nifer y Dyneiddwyr sy'n aelodau ar CYSAG. | meeting. Members were up-dated on the discussions which took place during the meeting on 30 September with Welsh Government colleagues, Steve Price, John Pugsley (Curriculum Division) and Karen Cornish (Head of review implementation team). The main focus of the meeting was on The Curriculum Review, Successful Futures and SACREs, other items discussed included the Review of Annual SACRE Reports, which, it was confirmed, would remain at 3 year cycle, and Welsh Government requests for guidance information on collective worship and for information regarding the number of Humanists who are members on SACRE. |
| Dywedodd Mary Parry wrth yr aelodau am gynlluniau NAPfRE i gynhyrchu disgrifiad o'r hyn sy'n gwneud addysg grefyddol dda a chynnig y ddogfen ganllaw hon i ysgolion Arloesi sy'n gyfrifol am ysgrifennu/datblygu'r cwricwlwm ar gyfer AG neu'r Dyniaethau fel rhan o gam nesaf y broses adolygu. | Mary Parry made members aware of NAPfRE's plans to produce a description of what good religious education is and to offer this guidance document to Pioneer schools who are responsible for writing/developing the curriculum for RE or Humanities as part of the next stage of the review process. |
| **CCB Cyngor Addysg Grefyddol a chyfathrebu cyffredinol/ *Religious Education Council AGM and general communication*– Gill Vaisey and Phil Lord** | **CCB Cyngor Addysg Grefyddol a chyfathrebu cyffredinol/ *Religious Education Council AGM and general communication*– Gill Vaisey and Phil Lord** |
| Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn y Gurdwara Sri Guru Singh Sabha, yn Llundain ac roedd yn cynnwys adroddiad gan y Cadeirydd newydd, Trevor Cooling ac araith gan Rudi Lockhart, y Prif Weithredwr newydd. Eglurwyd wrth yr aelodau fod yr holl wybodaeth a rannwyd yn y Cyfarfod Blynyddol yn benodol i addysg grefyddol yn Lloegr yn unig ac er mwyn gwella'r sefyllfa hon, mae Gill Vaisey, sy'n cynrychioli CCYSAGauC yng nghyfarfodydd y Cyngor, wedi cynnig anfon yr wybodaeth briodol o Gymru cyn pob cyfarfod os gall hi gael araith y Prif Swyddog Gweithredol ymlaen llaw fel y gofynnwyd amdani. | The AGM took place at Gurdwara Sri Guru Singh Sabha, in London which included a report from the new Chair, Trevor Cooling and an address from Rudi Lockhart the new Chief Executive. Members were informed that all information shared at the AGM was specific to religious education in England only and in order to improve this situation Gill Vaisey, who represents WASACRE at REC meetings, has offered to send the appropriate information from Wales before each meeting if the CEO's address is sent to her in advance as requested. |
| Roedd yr eitemau ar yr Agenda yn cynnwys: | Items on the Agenda included: |
| *Llysgenhadon Ifanc - Young Ambassadors*, gyda | *Young Ambassadors*, which involved a video |

fideo a chyflwyniad. Mae 12 ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun hwn ar hyn o bryd, yn cynnwys Ysgol Aberconwy o Gymru. Roedd Gill Vaisey'n gobeithio y gallai Phil Lord helpu'r ysgol gan ei bod yn ei ardal ef. Cynigiwyd gwahoddiad agored i grwpiau Ffydd estyn allan i'r llysgenhadon ysgol ar gyfer AG, er mwyn eu cefnogi ac i gael cefnogaeth.

*Adolygu'r fframwaith cyfreithiol ac ehangach i* AG, gyda thrafodaethau o gwmpas y bwrdd.

*Ymgyrch Recriwtio Athrawon*, a dangoswyd fideo proffesiynol ynglŷn â hyn.

Yn nhyb Gill, mae'n werth chweil ac yn bwysig parhau i ddatblygu'r berthynas hon â'r REC. Gall Cymru helpu Lloegr gymaint ag y gall Lloegr helpu Cymru. Cadarnhaodd Phil fod Rudi Lockhart wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag ef yn barod ac mae'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru.

Cyfarfod y Fforwm Ffydd/ *Faith Forum meeting* – Phil Lord

Cyfarfu Phil â nifer o gynrychiolwyr ffydd o bob cwr o Gymru ddydd Llun 23 Tachwedd. Eu prif bryder oedd yr hyn yr oedd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ei ddweud yn ei araith ddiweddar ynghylch newid enw AG ayb. Mae Phil wedi cytuno i driongli gwybodaeth gyda'r cynrychiolwyr fel y gellir rhannu gwybodaeth bob ffordd.

Yn dilyn hyn cododd yr aelodau rai cwestiynau am gynllun y cwricwlwm newydd ar gyfer AG a holwyd a oedd y Gweinidogion yn gwbl ymwybodol o sut olwg sydd ar AG yng Nghymru heddiw. Dywedodd Phil y byddai'n rhoi gwybod y diweddaraf i'r aelodau.

**Cynhadledd Addoli ar y Cyd / *Collective Worship Conference* – Gill Vaisey**

Rhannodd Gill gyflwyniad PowerPoint a oedd yn crynhoi'r prif bwyntiau a drafodwyd yn y gynhadledd ac fe'i cynhwysir fel atodiad i'r

and presentation. 12 schools are currently involved in this initiative, including Ysgol Aberconwy from Wales. Gill Vaisey hoped that Phil Lord may be able to support the school as it was local to his area of work. An open invitation was offered to Faith groups to reach-out to the school ambassadors for RE, in order to support them and to receive support.

*Reviewing the legal and wider policy framework for RE*, which involved table discussions.

*Teacher Recruitment Campaign*, for which a professional video was shown.

Gill urged that it is worthwhile and important to continue to develop this relationship with the REC. Wales can support England as much as England can support Wales. Phil confirmed that Rudi Lockhart has already been in regular contact with him and is aware of what is happening in Wales.

Cyfarfod y Fforwm Ffydd/ *Faith Forum meeting* – Phil Lord

Phil Lord met with a number of faith group representatives from across Wales on Monday 23 November. Their main concern was what the Minister for Education and Skills had said in his recent speech regarding changing the name of RE etc. Phil has agreed to triangulate information with the representatives so that knowledge can be shared both ways.

Following this members raised some questions regarding the design of the new curriculum for RE and whether Ministers are fully aware of what RE is like today in Wales. Phil said that he would keep members up-dated.

**Cynhadledd Addoli ar y Cyd / *Collective Worship Conference* - Gill Vaisey**

Gill shared a PowerPoint presentation which summarised the main points covered at the conference and which is attached to the minutes

| | |
|---|---|
| cofnodion. Cyfeiriodd Gill at Adroddiad a ddosbarthwyd yn ystod y gynhadledd. Mae copi o'r Adroddiad ar gael yn: https://www.dropbox.com/sh/3ijyaknnt5cl9jx/AAC8PyypvTS9t-zxPsx_E2Vta?dl=0<br><br>Sicrhaodd Gill yr aelodau mai'r cyfan a wna'r adroddiad yw gosod allan y ffeithiau fel y maent a'r nod yw ysgogi meddwl o'r newydd ar bwnc addoli ar y cyd mewn ysgolion.<br><br>Gweithredu: Bydd LJ yn trefnu'r cyfarfod rhwng cydweithwyr Llywodraeth Cymru, yr academyddion sy'n arwain ar y cynllun hwn a'r cynrychiolwyr o CCYSGauC. | as an appendix. Gill made members aware of a Report that was given out at the conference. A copy of the Report is available at: https://www.dropbox.com/sh/3ijyaknnt5cl9jx/AAC8PyypvTS9t-zxPsx_E2Vta?dl=0<br><br>Gill assured members that the report merely sets out the facts as they stand today and the aim of the Report is to stimulate fresh thinking on the subject of collective worship in schools.<br><br>Action: LJ will arrange the meeting between Welsh Government colleagues, the academics leading this initiative and representatives from WASACRE. |
| 8. Cyflwyniad PYCAG / *NAPfRE presentation:*<br><br>Manylebau TGAU diwygiedig ar gyfer Astudiaethau Crefyddol/ *Revised GCSE Specifications for Religious Studies- Lynda Maddock, CBAC*<br><br>Lynda Maddock yw Swyddog Pwnc newydd Astudiaethau Crefyddol TGAU. Mae ei chydweithiwr Andrew Pearce yn gyfrifol am Astudiaethau Crefyddol A2 ac A2 a chyfeiriodd Lynda'r rheiny oedd â chwestiynau am AS neu A2 at Andrew.<br><br>AS ac A2: Sicrhaodd Lynda'r aelodau fod yr wybodaeth am yr AS a'r A2 presennol ar gael ar wefan CBAC. Yng Nghymru gall y cymhwyster AS (Uwch Gyfrannol) sefyll ar ei ben ei hun ond mae hefyd yn cyfrif tuag at Lefel A. Yn Lloegr ar y llaw arall, mae'r cymhwyster AS yn sefyll ar ei ben ei hun yn unig ac **nid yw'n** cyfrif tuag at lefel A. Mae'r cymhwyster lefel A yn Lloegr yn sefyll ar ei ben ei hun.<br><br>Dywedwyd wrth yr aelodau fod Hodder yn cyhoeddi llyfrau ar gyfer y fanyleb RS yn Lloegr, ond ni phenderfynwyd ar unrhyw beth eto i Gymru. Mae CBAC wedi gorfod cynnwys credoau heb fod yn rhai crefyddol yn o leiaf un rhan o'r fanyleb Astudiaethau Crefyddol yn sgil lobïo gan y Dyneiddwyr. | 8. Cyflwyniad NAPfRE / *NAPfRE presentation:*<br><br>Manylebau TGAU diwygiedig ar gyfer Astudiaethau Crefyddol/ *Revised GCSE Specifications for Religious Studies- Lynda Maddock, WJEC*<br><br>Lynda Maddock is the newly appointed Subject Officer for Religious Studies at WJEC. Her colleague Andrew Pearce is responsible for Religious Studies AS and A2 and Lynda directed those who have questions about AS or A2 to Andrew.<br><br>AS and A2: Lynda assured members that information on the current AS and A2 is available on the WJEC website and that in Wales the AS qualification can be standalone but also counts towards A Level if it is sat. Where as in England, the AS qualification is standalone only and **does not** count towards A level. The A level qualification in England is standalone.<br><br>Members were informed that Hodder are publishing books for the RS specification in England, but that nothing has been decided yet for Wales. WJEC have had to include non-religious beliefs in at least one part of the Religious Studies specification due to Humanist lobbying. |

| | |
|---|---|
| TGAU: Gofynnodd CBAC am gael gohirio'r fanyleb AG newydd am flwyddyn, ond mae Cymwysterau Cymru wedi gwrthod eu cais. | GCSE: WJEC have requested a year's postponement for the new RE specification, but Qualifications Wales has rejected their request. |
| Disgrifiodd Lynda y fanyleb newydd yn Lloegr gan egluro ei bod yn berthnasol i Gymru yn yr ystyr ei bod yn rhaid cael cydraddoldeb yn ansawdd a safon y ddau gymhwyster er mwyn sicrhau tegwch a chyfartaledd i fyfyrwyr yn y ddwy wlad. | Lynda described the new specification for England explaining that it has relevance for Wales in as much as, there needs to be parity in the quality and standards of both qualifications to ensure fairness and equality for students in both countries. |
| Yng Nghymru dim ond un fanyleb fydd a bydd yn cadw dull unedig fel y gall disgyblion Blwyddyn 10 ddal eistedd Cwrs Byr wedi blwyddyn o astudiaeth. Cadarnhawyd hefyd y gall disgyblion eistedd un arholiad Cwrs Byr yn unig (Naill ai Uned 1 neu Uned 2) ar ddiwedd y ddwy flynedd, neu eistedd y ddau arholiad Cwrs Byr (Uned 1 ac Uned 2) er mwyn cael cymhwyster Cwrs Llawn. Gobeithir y bydd Uned 1 yn debyg i'r Fanyleb B bresennol, ac Uned 2 yn debyg i Fanyleb 2. | In Wales there will be one specification only and it will retain a unitised approach so that Year 10 pupils can still be entered for a Short Course after one year of study. It was confirmed that pupils can also sit just one Short Course exam (Either Unit 1 or Unit 2) at the end of the two years, or sit both Short Course exams (Unit 1 and Unit 2) to receive a Full Course qualification. It is hoped that Unit 1 will be similar to the current Spec B, and Unit 2 will be similar to the current Spec A. |
| Mae Uned 1 yn debygol o gynnwys ymatebion crefyddol i faterion athronyddol, lle y gofynnir i'r myfyrwyr ddewis dwy grefydd ac astudio themâu ynddynt fel Bywyd a Marwolaeth a Da a Drwg. Yn ychwanegol at hyn bydd y myfyrwyr yn astudio credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd dwy grefydd. | Unit 1 is likely to include religious responses to philosophical issues, where students will be asked to choose two religions through which to study themes like, life & Death and Good & Evil. In addition to this students will study the core beliefs teachings and practices of two religions. |
| Mae Uned 2 yn debygol o gynnwys ymatebion crefyddol i faterion Moesegol, lle y gofynnir i'r myfyrwyr ddewis dwy grefydd a thrwyddynt astudio themâu fel Perthynas, a Hawliau Dynol. Yn ychwanegol at hyn bydd y myfyrwyr yn astudio credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd dwy grefydd. | Unit 2 is likely to include religious responses to Ethical issues, where students will be asked to choose two religions through which to study themes like, Relationships, and Human Rights. In addition to this students will study the core beliefs teachings and practices of two religions. |
| Mae'n fwy na thebyg mai Cristnogaeth fydd y grefydd orfodol yn y fanyleb hon a bydd gofyn i'r myfyrwyr ddewis un grefydd arall i'w hastudio. Bydd y ddwy Uned yn gwneud cwrs llawn a dim ond un Uned yn gwneud cwrs byr. | It is most likely that Christianity will be made the compulsory religion for this specification and students will be required to choose one other religion to study. Both Units will make a full course and only one Unit will make a short course |
| Roedd gwybodaeth arall yn cynnwys y canlynol: Bydd Ysgolion Catholig yn gwneud 75% | Other information included the following: Catholic Schools will do 75% Catholicism and |

| | |
|---|---|
| Pabyddiaeth a 25% Iddewiaeth a bydd teitl y cwrs yn adlewyrchu hyn; Ni fydd gwaith cwrs yn TGAU Astudiaethau Crefyddol; Mae'r manylebau diwygiedig a'r sampl o ddeunydd asesu i fod i fynd i Cymwysterau Cymru ar 18 Rhagfyr a gobeithir y bydd y drafft terfynol yn barod ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd CBAC i athrawon yn y gwanwyn. | 25% Judaism and the title of the course will reflect this; There will be no course work for the RS GCSE; The revised specifications and sample assessment material are due to go to Qualifications Wales on 18 December and it is hoped that the final draft will be ready in time for the WJEC Inset for teachers in the spring. |
| Gwahoddir CYSAGau i ysgrifennu at Brif Weithredwr CBAC os oes ganddynt unrhyw bryderon. | SACREs are invited to write to the Chief Exec of WJEC to voice any concerns that they have. |
| Gweithredu: LJ i ysgrifennu at CGAC i leisio pryderon CCYSAGauC yn cynnwys cais i ohirio'r fanyleb am flwyddyn ac i ofyn am gael gwybodaeth am Uned 1 ar y wefan ym mis Ionawr , i helpu athrawon gyda'u cynllunio. Bydd LJ yn anfon copi o'r llythyr i Glercod CYSAG cyn Nadolig. | Action: LJ will write to WJEC to voice WASACRE's concerns including a request to delay the specification for one year and to request information about Unit one to go on the website in January, to help teachers with their planning. LJ will send a copy of the letter to SACRE Clerks before Christmas. |
| Diolchodd Phil i Lynda am ei chyflwyniad a sicrhaodd bawb a oedd yn bresennol y bydd CCYSAGauC yn parhau i gefnogi a gweithio gyda CBAC. | Phil Thanked Lynda for her presentation and assured those present that WASACRE will continue to support and work with WJEC. |
| 9. Adolygiad Cwricwlwm / *Curriculum Review*- Libby Jones | 9. Adolygiad Cwricwlwm / *Curriculum Review*- Libby Jones |
| Mae diweddariad ysgrifenedig ar yr eitem hon ynghlwm wrth y cofnodion fel atodiad. | A written up-date on this item is attached to the minutes as an appendix. |
| Diolchodd Bethan James, Cadeirydd PYCAG i Phil am gynrychioli CCYSAGauC (a PYCAG) a gofynnodd am ddiweddariad ysgrifenedig byr i'r CYSAGau o'r cyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn helpu cydweithwyr i ateb unrhyw gwestiynau a ddaw gan athrawon. Cytunodd Phil i wneud hyn. | Bethan James, Chair of NAPfRE thanked Phil for representing WASACRE (and NAPfRE) and requested a brief written up-date for SACREs from that meeting in Decem~~b~~er in order to help colleagues answer any questions they receive from teachers. Phil Agreed to do this. |
| Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Medi 2015 / *Report from the Executive Committee held on 30 September 2015* | Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 30 Medi 2015 / *Report from the Executive Committee held on 30 September 2015* |
| Derbyniwyd yr adroddiad a chytunwyd ei fod yn gywir. | The report was accepted and agreed as accurate. |

| | |
|---|---|
| 10. Gohebiaeth /*Correspondence*<br><br>Rhannodd Libby nifer o lythyrau ac e-byst o dan gohebiaeth, y rhan fwyaf ohonynt wedi cael sylw yn y cyfarfod.<br><br>11. U.F.A. / *A.O.B.*<br><br>12. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting*: 8 Mawrth 2016, Sir Benfro / 8 March *2016*, Pembrokeshire<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / Future meeting dates: Haf / Summer 23/6/ 2016 Sir Ddinbych / Denbighshire; Hydref / Autumn 18/11/2016 Sir Gaerfyrddin / Carmarthenshire;<br><br>Gwanwyn / Spring 2017 Sir Fynwy / Monmouthshire.<br><br>Diolch i'r Clerc, Emma Bailey a Rheolwr y Swyddfeydd Cyffredinol, Lisa Osborne, Alan Williams, y Swyddog Gwella Ysgol a drefnodd y gerddoriaeth, a Steffan y cyfieithydd. | 10. Gohebiaeth /*Correspondence*<br><br>Libby shared a number of letters and emails as correspondence, most of which had already been dealt with in the meeting.<br><br>11. U.F.A. / *A.O.B.*<br><br>12. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date for next meeting*: 8 Mawrth 2016, Sir Benfro / 8 March *2016*, Pembrokeshire<br><br>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol / *Future meeting dates:* Haf */ Summer 23/6/ 2016* Sir Ddinbych */ Denbighshire;* Hydref */ Autumn 18/11/2016* Sir Gaerfyrddin */ Carmarthenshire;*<br><br>Gwanwyn / Spring 2017 Sir Fynwy / Monmouthshire.<br><br>Thanks to Clerk Emma Bailey and Manager of the General Offices, Lisa Osborne, Alan Williams, the School Improvement officer who arranged the music, and Stephan the Translator. |